| Cynllun Ffioedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r Sefydliad | Swansea University Prifysgol Abertawe |
| Hyd y cynllun ffioedd a mynediad | 1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024 y 1 Awst 2024 to 31 Gorffennaf 2025. (Paragraffau arweiniad 82-83) |
| **Adran 1 - Lefelau ffioedd** | |
| Adran 1.1a – Lefelau ffioedd neu bennu lefel ffioedd ym mhob lleoliad ar gyfer 2023/24 (Paragraffau arweiniad 88-97) | |
| **Lefel y ffi** | **Lleoliad y cwrs** |
| £9,000 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd<br>• Tystysgrif Addysg Uwch (cwrs 1 flwyddyn amser llawn)<br>• Gradd gyntaf mewn Iechyd/Milfeddygaeth neu gymhwysedd ar sail cymwysterau blaenorol i ddechrau cwrs ym mlynyddoedd 2 neu 3<br>• Diploma a chymhwyster ar gyfer Iechyd/Milfeddygaeth<br>• Gradd Gyntaf Uwch (gradd 4 blynedd yn arwain at gymhwyster Meistr)<br>• TAR |

| | |
|---|---|
| | **Coleg Cambria**<br>Gradd Gyntaf |
| £7,500 | **Coleg Cambria**<br>Gradd Sylfaen |
| £1,800 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 3)<br>• Gradd gyntaf estynedig - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 4) |
| £1,350 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn dramor<br>• Gradd gyntaf estynedig - blwyddyn dramor |

Gall ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig amser llawn o'r Deyrnas Unedig gynyddu ar gyfer blynyddoedd astudio ar ôl y flwyddyn gyntaf ar sail chwyddiant fel y'i pennir gan Lywodraeth Cymru.

## Adran 1.2a - Lefelau ffioedd cyfanredol ar gyfer 2023/24
(Paragraffau arweiniad 98-102)

**Cyfanswm y ffioedd dysgu ar draws hyd y cwrs (ffioedd cyfanredol)**

Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'n tudalennau cwrs ar ein gwefan mae'n bosibl i fyfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffi dysgu neu'r ffi dysgu gyfanredol y byddant yn ei thalu ar draws y radd o'u dewis. Rhestrir enghreifftiau nodweddiadol isod:

| **Math nodweddiadol o radd**<br>(myfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU/UE) | **Cyfrifiad** | **Cyfanswm y ffi dysgu ar hyd y cwrs*** |
|---|---|---|
| Gradd israddedig amser llawn am 3 blynedd/TAR | 3 x £9,000 y flwyddyn | £27,000 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn dramor | 3 x £9,000 a £1,350 ar gyfer y flwyddyn dramor | £28,350 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn mewn diwydiant | 3 x £9,000 a £1,800 ar gyfer y flwyddyn mewn diwydiant | £28,800 |

| | | |
|---|---|---|
| Gradd 4 blynedd | 4 x £9,000 | £36,000 |
| Gradd Sylfaen | 2 x £7,500 y flwyddyn | £15,000 |

*nid yw'n cynnwys cost ychwanegol i astudio cyrsiau penodol (gweler isod).

Beth bynnag fo lefel y ffi, byddwn yn...

- Ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais am fynediad o 2023-24 i roi gwybod iddynt am y ffioedd, y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth am lefelau ffioedd ar gyfer pob blwyddyn o'r rhaglen astudio (er mwyn cyfrifo cyfanswm y ffi ar gyfer y rhaglen gyfan).
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais i Brifysgol Abertawe am fynediad yn 2023-24 wedi'i ohirio o'r flwyddyn flaenorol i roi gwybod iddynt am y ffioedd.
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr presennol y gallai newidiadau mewn ffioedd effeithio arnynt os ydynt yn dewis symud i gwrs arall neu'n gorfod ailsefyll i roi'r wybodaeth briodol iddynt.
- **Gellir dod o hyd i wybodaeth am ffioedd a chostau cysylltiedig "https://www.swansea.ac.uk/undergraduate/fees-and-funding/" yma**

Yn ogystal â thaliadau Ffioedd Dysgu a chostau byw, gall rhai rhaglenni (neu fodiwlau) ddenu **costau gorfodol neu ddewisol ychwanegol** pellach sy'n angenrheidiol i fyfyrwyr gymryd rhan lawn a chwblhau'r rhaglen o'u dewis.

Bydd angen i fyfyrwyr neilltuo arian ar gyfer y costau hyn ar wahân, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y ffioedd dysgu a godir. Gall y fath gostau gynnwys teithiau maes, costau teithio ar gyfer lleoliadau gwaith neu leoliadau astudio, costau offer a labordy neu wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n benodol i'ch rhaglen. Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid masnachfraint yn parhau i ymdrechu i leihau nifer a graddfa costau ychwanegol ond **bydd manylion unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe rhaglenni unigol a châ**nt eu cynnwys yn yr wybodaeth am y rhaglen a anfonir at ymgeiswyr ar adeg cynnig lle iddynt. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yma.

Adran 1.1b – Lefelau ffïoedd neu bennu lefelau ffïoedd ym mhob lleoliad ar gyfer 2024/25
(Paragraffau arweiniad 88-97)

| Lefel y ffi | Lleoliad y cwrs |
|---|---|
| £9,250 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd i fyfyriwr sy'n dychwelyd<br>• Gradd Gyntaf Uwch (gradd 4 blynedd sy'n arwain at gymhwyster gradd Meistr) i fyfyriwr sy'n dychwelyd<br>• Gradd gyntaf mewn Iechyd/Milfeddygaeth neu gymhwyster ar sail cymwysterau blaenorol i ddechrau cwrs ym mlynyddoedd 2 neu 3<br>• Diploma a chymhwyster ar gyfer Iechyd/Milfeddygaeth |
| £9,000 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd myfyriwr blwyddyn gyntaf<br>• Tystysgrif Addysg Uwch (cwrs 1 flwyddyn amser llawn)<br>• Gradd Gyntaf Uwch (gradd 4 blynedd sy'n arwain at gymhwyster gradd Meistr) i fyfyriwr blwyddyn gyntaf<br>• TAR<br>• Myfyrwyr ar raglenni HEIW sydd dan gontract ar hyn o bryd ar £9,000 y flwyddyn |
| | **Coleg Cambria**<br>Gradd gyntaf |
| £7,500 | **Coleg Cambria**<br>Gradd Sylfaen |
| £1,850 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 3) |

| | |
|---|---|
| | • Gradd gyntaf estynedig - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 4) |
| £1,385 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn dramor<br>• Gradd gyntaf uwch - blwyddyn dramor |

Gall ffïoedd dysgu myfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU mewn blynyddoedd astudio wedi hynny gynyddu gan swm a bennir gan Lywodraeth Cymru.

## Adran 1.2b - Lefelau ffïoedd cyfanredol ar gyfer 2024/25
(Paragraffau arweiniad 98-102)

**Cyfanswm y ffïoedd dysgu ar draws hyd y cwrs (ffïoedd cyfanredol)**

Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'n tudalennau cwrs ar ein gwefan mae'n bosibl i fyfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffi dysgu neu'r ffi dysgu gyfanredol y byddant yn ei thalu ar draws y radd o'u dewis. Rhestrir enghreifftiau nodweddiadol isod:

| Math nodweddiadol o radd (myfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU/UE) | Cyfrifiad | Cyfanswm y ffi dysgu ar hyd y cwrs* |
|---|---|---|
| Gradd israddedig amser llawn 3 blynedd | 1 x £9,000 am y flwyddyn gyntaf yn ogystal â 2 x £9,250 y flwyddyn am flynyddoedd 2 a 3 | £27,500 |
| TAR | £9,000 | £9,000 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn dramor | 1 x £9,000 am y flwyddyn gyntaf yn ogystal â 2 x £9,250 y flwyddyn am flynyddoedd 2 a 4 yn ogystal â £1,385 am y flwyddyn dramor | £28,885 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn mewn diwydiant | 1 x £9,000 ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn ogystal â 2 x £9,250 y flwyddyn am flynyddoedd 2 a 3 neu 4 yn ogystal â £1,850 am y flwyddyn mewn diwydiant | £29,350 |
| Gradd 4 blynedd | 1 x £9,000 ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn ogystal â 3 x £9,250 y flwyddyn ar gyfer blynyddoedd 2, 3 a 4 | £36,750 |
| Gradd Sylfaen | 2 x £7,500 y flwyddyn | £15,000 |

*nid yw'n cynnwys cost ychwanegol i astudio cyrsiau penodol (gweler isod).

Beth bynnag fo lefel y ffi, byddwn yn...

- Ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais am fynediad o 2024-25 i roi gwybod iddynt am y ffïoedd, y trefniadau ar gyfer talu ffïoedd a'r cymorth sydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth am lefelau ffïoedd ar gyfer pob blwyddyn o'r rhaglen astudio (er mwyn cyfrifo cyfanswm y ffi ar gyfer y rhaglen gyfan).
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais i Brifysgol Abertawe am fynediad yn 2024-25 wedi'i ohirio o'r flwyddyn flaenorol i roi gwybod iddynt am y ffïoedd.
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr presennol y gallai newidiadau mewn ffïoedd effeithio arnynt os ydynt yn dewis symud i gwrs arall neu'n gorfod ailsefyll i roi'r wybodaeth briodol iddynt.
- **Gellir dod o hyd i wybodaeth am ffïoedd a chostau cysylltiedig "https://www.swansea.ac.uk/undergraduate/fees-and-funding/" yma**

Yn ogystal â thaliadau Ffïoedd Dysgu a chostau byw, gall rhai rhaglenni (neu fodiwlau) ddenu **costau gorfodol neu ddewisol ychwanegol** pellach sy'n angenrheidiol i fyfyrwyr gymryd rhan lawn a chwblhau'r rhaglen o'u dewis.

Bydd angen i fyfyrwyr neilltuo arian ar gyfer y costau hyn ar wahân, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y ffïoedd dysgu a godir. Gall y fath gostau gynnwys teithiau maes, costau teithio ar gyfer lleoliadau gwaith neu leoliadau astudio, costau offer neu labordy, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n benodol i'r rhaglen. Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid masnachfraint yn parhau i weithio i leihau nifer a graddfa costau ychwanegol ond **bydd manylion unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar dudalen we rhaglen unigol a byddant yn cael eu cynnwys yng ngwybodaeth y rhaglen a anfonir at yr holl ymgeiswyr wrth wneud cynnig iddynt.** Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan **yma**.

## Adran 2 – Partneriaethau â Myfyrwyr
(Paragraffau arweiniad 103-106)

**Mae Swyddogion Undeb y Myfyrwyr** yn llywio ac yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn adolygu drafft cyntaf y cynllun a'r drafftiau dilynol ar ôl i ni dderbyn adborth gan CCAUC. Bydd Swyddogion Undeb y Myfyrwyr hefyd yn chwarae rhan yn y gwaith o gymeradwyo'r cynllun pan gaiff ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth/y Cyngor. Yn ogystal, mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr ynghyd â Swyddog Amser Llawn arall enwebedig yn aelodau o'r Cyngor a byddant yn cymeradwyo'r cynllun pan fydd yn dod gerbron y Cyngor i'w gymeradwyo.

Mae holl Swyddogion Amser Llawn Undeb y Myfyrwyr, Tîm Llais Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe a nifer o Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn aelodau o'r **Pwyllgor Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr**, sy'n bwyllgor allweddol yn y Brifysgol lle caiff strategaethau a phrosiectau sy'n gysylltiedig â phrofiad a phartneriaeth myfyrwyr eu trafod a'u cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hwn yn adrodd i Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol ac mae hefyd yn goruchwylio'r adolygiad blynyddol o'r Siarter Myfyrwyr yn unol ag argymhellion CCAUC ac ychwanegiadau a gwelliannau ehangach gan fyfyrwyr yn seiliedig ar brofiad.

Caiff myfyrwyr eu hysbysu drwy lawer o **sianeli pwrpasol** gan gynnwys:

- Cynrychiolwyr myfyrwyr mewn pwyllgorau ar lefel y Brifysgol a Fforymau Myfyrwyr/Staff mewn cyfadrannau a Phwyllgorau Dysgu ac Addysgu
- Gwefan MyUni a chylchlythyr wythnosol i fyfyrwyr sy'n cael ei ategu gan e-byst mwy penodol a anfonir yn uniongyrchol at fyfyrwyr a llu o blatfformau cyfryngau cymdeithasol
- Platfform Llais Myfyrwyr Unitu, gan gynnwys swyddogaeth Newid Gyda'n Gilydd lle gall myfyrwyr weld sut mae adborth wedi cael ei weithredu
- Cymuned Adolygwyr Myfyrwyr yn ategu amcanion adolygu a gwella ansawdd ac yn cyfrannu at adolygiadau blynyddol o raglenni

Mae ein Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr yn canolbwyntio ar greu diwylliant cynhwysol o ymgysylltu â myfyrwyr a phartneriaeth gan sicrhau bod ein Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaeth o fyfyrwyr a'u bod yn cael eu cynrychioli fel partneriaid craidd ym mhob rhan o'n strwythurau. Mae'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgysylltu fel partneriaid drwy amrywiaeth eang o blatfformau sy'n galluogi dewis ac yn cefnogi hygyrchedd, megis Paneli Barn Myfyrwyr a digwyddiadau Cnoi Cil. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'n myfyrwyr mewn sefydliadau partner drwy'r strategaeth hon. Caiff llais y myfyrwyr ac adborth gan fyfyrwyr eu cipio gan arolygon Llais y Dysgwr yn ein sefydliadau partner sy'n rhoi adborth i'r tiwtor cyswllt ar gyfer pob cyfadran.

Mae'r Brifysgol yn cynnal menter **'Newid Gyda'n Gilydd'**, gyda'r nod o gau'r ddolen adborth. Caiff delweddau a negeseuon sy'n manylu ar gamau cadarnhaol o ganlyniad i adborth myfyrwyr eu cyfleu ar lefel rhaglen, Cyfadran a'r Brifysgol. Gall myfyrwyr bostio a gwneud sylwadau'n ddienw ar fyrddau'r Gyfadran a ledled y Brifysgol drwy blatfform llais myfyrwyr Unitu, gan alluogi staff i ymateb, a hwyluso trafodaeth ystyrlon. Mae'r platfform yn rhoi cipolwg ar flaenoriaethau myfyrwyr ar lefel sylfaenol ac mae'r sgwrs yn newid yn barhaus. Gall staff ymgysylltu ag adborth myfyrwyr ar fodiwlau

drwy'r Porth Ymgysylltu EvaMetrics sy'n cefnogi cwblhau'r arolygon yn y dosbarth yn ystod y modiwl ac ar ddiwedd y modiwl. Mae'r porth yn rhoi dull syml i staff ar gyfer darparu sylwadau i fyfyrwyr yn seiliedig ar eu hadborth, nodi camau gweithredu a chreu deialog rhwng staff a myfyrwyr, cefnogi cyd-greu cynnwys modiwlau a helpu i gau'r ddolen adborth. Er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i fyfyrwyr am sut mae eu hadborth yn cael ei ystyried, mae 'Themâu Adborth' allweddol a meysydd gwella wedi'u rhannu â myfyrwyr drwy ein modiwl adborth ar Canvas.

Cynhelir **Fforymau Staff a Myfyrwyr** gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a Staff y Gyfadran i fynd i'r afael ag adborth myfyrwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr. Bydd Swyddog Materion Cymreig yn darparu cynrychiolaeth a chymorth i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a/neu sy'n dod o Gymru a/neu sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.Sefydlwyd fforwm penodol ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a derbynnir eu hadborth nhw gan Fwrdd Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol a Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Arweinir system **'Cynrychiolwyr Myfyrwyr' ('Parth Addysg')** gan Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr, ac mae'n cynnwys mwy na 350 o gynrychiolwyr ar lefel yr Ysgol a'r pwnc. Mae'r Cynrychiolwyr hyn yn mynychu Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu Ysgolion, Byrddau Astudiaethau, a Fforymau Staff a Myfyrwyr Ysgolion. Mae adborth gan gynrychiolwyr myfyrwyr yn rhan bwysig o agendâu Byrddau Astudiaethau a Fforymau Staff a Myfyrwyr.

Mae Cynrychiolwyr Ysgol hefyd yn cwrdd yn rheolaidd yn y Pwyllgor Addysg, sy'n cael ei wasanaethu gan Undeb y Myfyrwyr a'i gadeirydd yw'r Swyddog Addysg. Gwahoddir pob aelod o'r pwyllgor i rannu adborth sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i wahanol staff a phwyllgorau ar draws y Brifysgol er mwyn iddynt roi sylw arno neu ei ystyried.

Hefyd, mae gan bob Gyfadran **Bartneriaid Ymgysylltu â Myfyrwyr**, rhai academaidd a gweinyddol, sy'n meithrin perthnasoedd partneriaeth agos â myfyrwyr sy'n cynrychioli eu Hysgolion a phynciau. Mae'r arweinwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr yn rhoi cymorth ar y cyd i'w gilydd wrth fynd i'r afael â materion a datblygu a chyd-greu mentrau ar lefel y gyfadran, megis mentora cyfoedion a chynlluniau cyfeillio. Cynhelir Fforwm Partneriaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr rheolaidd gyda'r Tîm Partneriaeth ac Ymgysylltu Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i rannu arferion gorau.

Cynrychiolir myfyrwyr yn y **prosesau sicrhau a gwella ansawdd** drwy fod yn aelod o'r Timau Adolygu ar gyfer Adolygiadau Ansawdd, ac Ymgysylltiadau Profiad Myfyrwyr. Hefyd, gwahoddir myfyrwyr i gyfarfodydd adolygu i roi adborth ar eu profiad academaidd. Mae adborth myfyrwyr, drwy ymatebion i arolygon, yn rhan bwysig o'r prosesau adolygu ansawdd ac mae'r gyfradd ymateb uchel yn Abertawe yn ein galluogi i gael data cadarn iawn ar foddhad myfyrwyr. Mae adborth myfyrwyr ar lefel modiwl, a gesglir ddwywaith y flwyddyn, hefyd yn cyfrannu at adolygiadau datblygiad proffesiynol staff. Yn 2019, lansiodd y Brifysgol Gymuned Adolygydd Myfyrwyr newydd ar gyfer dewis ac ymgysylltu â myfyrwyr yn well mewn prosesau sicrhau ansawdd drwy hyfforddiant a mentora parhaus.

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Myfyrwyr ynghylch Cynhwysiant Hiliol yn brosiect a sefydlwyd ar y cyd gan Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol i sicrhau bod lleisiau myfyrwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu clywed a'u cynrychioli ym mhob rhan o fywyd y Brifysgol.Mae pob myfyriwr ar y pwyllgor

hwn yn mentora aelod o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, er mwyn addysgu'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ymhellach ar y materion y mae'r grŵp hwn o fyfyrwyr yn eu hwynebu.

Yn ogystal â'r strwythurau partneriaeth myfyrwyr uchod gyda'r gymuned myfyrwyr ehangach ac amrywiol, mae Swyddogion Amser Llawn Undeb y Myfyrwyr a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cynnal cyfarfodydd bob deufis gydag Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol i roi adborth a throsglwyddo materion y mae angen sylw arnynt ar unwaith. Mae Swyddogion Amser Llawn hefyd yn cynnal cyfarfodydd bob pythefnos â'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr), yn ogystal â chyfarfodydd misol gyda Chadeirydd y Cyngor, i gyfleu, olrhain a monitro'r cynnydd ar y materion pwysig sy'n gysylltiedig â phrofiad academaidd myfyrwyr a'u profiad ehangach. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal ei arolygon ei hun, fforymau myfyrwyr gan gynnwys gyda grwpiau rhyddhau ac mae'n sicrhau adborth uniongyrchol ganddynt. Caiff yr adborth hwn ei drosglwyddo i bwyllgorau perthnasol drwy Swyddogion etholedig, Cynrychiolwyr a staff yr Undeb. Mae Swyddogion Undeb y Myfyrwyr a'r Uwch-dîm Rheoli hefyd yn rhan o wahanol bwyllgorau ar lefel y Brifysgol a lefel y gyfadran ac mae ei dîm Llais y Myfyrwyr yn gweithio'n agos iawn gyda Gwasanaeth Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr y Brifysgol i gefnogi a hwyluso cynhwysiant parhaus a chyson i fyfyrwyr a chymryd rhan wrth fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'u taith academaidd a'u taith ehangach fel myfyrwyr.

## Adran 3 - Grwpiau wedi'u tangynrychioli
(Paragraffau arweiniad 107-113)

Ar gyfer 2023-25, mae'r Brifysgol wedi nodi'r grwpiau canlynol sydd wedi'u tangynrychioli a fydd yn cael eu cefnogi'n benodol gan y cynllun hwn:

Grwpiau wedi'u tangynrychioli **a nodwyd gan CCAUC**:

- Myfyrwyr o bob oedran **o'r ddau gwintel isaf** ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (**WIMD40).**
- Myfyrwyr o bob oedran **o gwintel** isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALlC20).
- Pobl o bob oedran o ardaloedd cyfranogiad isel mewn addysg uwch y DU (POLAR4).
- Myfyrwyr o bob oedran a fyddai'n elwa o astudio'n rhan-amser ym myd Addysg Uwch
- Myfyrwyr o bob oedran sy'n astudio drwy **gyfrwng y Gymraeg.**

Yn ogystal, mae **Prifysgol Abertawe** wedi nodi'r grwpiau canlynol sydd wedi'u tangynrychioli:

- **Myfyrwyr â phrofiad o ofal**
- **Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u rhieni**

- Myfyrwyr sy'n ofalwyr (perthynas neu ffrind ac eithrio plant oni bai eu bod yn anabl neu fod ganddynt gyflwr meddygol hirdymor)
- **Myfyrwyr aeddfed dros 21 oed wrth ddechrau astudio**
- **Myfyrwyr anabl**
- **Grwpiau lleiafrifoedd ethnig y DU**
- **Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid**

Y grwpiau targed ar gyfer **cyfraniad y Sefydliad at y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach** yw:

- grwpiau blaenoriaeth yn y ddau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) yn ne-orllewin Cymru:
  - pobl ifanc hyd at 16 oed;
  - oedolion dros 21 oed sydd heb gymwysterau lefel 4;
  - pobl ifanc ôl-16 oed mewn dysgu hyd at lefel 4, yn ogystal ag oedolion sydd heb gymwysterau lefel 4;
  - pobl ag anableddau;
  - pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig; a
  - dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu Cymraeg fel ail iaith a diwylliannau Cymru

- dysgwyr sydd wedi profi gofal a gofalwyr o bob oedran yn rhanbarth de-orllewin Cymru ni waeth am WIMD 40.

## Adran 4 – Amcanion fel y maent yn ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo Addysg Uwch
(Paragraffau arweiniad 114-148)

### Adran 4.1 - Cyfle Cyfartal

| | |
|---|---|
| CC1 | **Denu:** Ysbrydoli a recriwtio mwy o fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i astudio ym Mhrifysgol Abertawe. |
| CC2 | Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn cael **gwybodaeth effeithiol** (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol) cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol. |
| CC3 | **Dilyniant a Chadw:** Darparu cymorth academaidd, lles ac ariannol cynhwysol i fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gan eu cefnogi i symud ymlaen drwy eu hastudiaethau a'u cwblhau. |

| | |
|---|---|
| CC4 | **Canlyniadau:** Cefnogi mwy o fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn Addysg Uwch gan arwain at gyflogaeth neu astudiaethau pellach. |
| **Adran 4.2 - Hyrwyddo addysg uwch** | |
| HAU1 | **Partneriaethau Strategol Rhanbarthol:** Darparu partneriaethau yng Nghymru sy'n cyflawni cenhadaeth AU y Sefydliad, yn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn hyrwyddo ein dyheadau Cenhadaeth Ddinesig. |
| HAU2 | **Profiad Myfyrwyr:** Darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n gwella profiad y myfyrwyr gan gynnwys gwelliannau i ansawdd yr addysgu. |
| HAU3 | **Cyflogadwyedd:** Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau i fyfyrwyr mewn partneriaeth â chyflogwyr sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru. |
| HAU4 | **Rhyngwladoli:** Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo Addysg Uwch Cymru yn rhyngwladol gan arwain at fwy o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol. |
| HAU5 | **Codi ymwybyddiaeth** o werth Addysg Uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol. |